**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL GEMAU'R GYMANWLAD BIRMINGHAM [HL] 2017-19**

1. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei gyflwyno o dan Orchymyn Sefydlog ("OS") 29.2 Mae OS29 yn pennu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol gan y DU yn gwneud darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chymru at unrhyw ddibenion, neu sy'n diwygio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

2. Cafodd Bil Gemau'r Gymanwlad Birmingham (y 'Bil') ei gyflwyno i Dŷ'r Arglwyddi ar 5 Mehefin 2019. Cewch gopi o'r Bil ar:

https://services.parliament.uk/bills/2017-19/birminghamcommonwealthgames.html

**Amcan(ion) y Polisi**

*3.* Mae'r amcanion polisi sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth y DU yn cyfeirio at ychydig o feysydd sy'n galw am ymateb deddfwriaethol i'r paratoadau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad, sydd i'w cynnal yn Birmingham yn 2022.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Caiff y Bil ei noddi gan yr Adran Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

*5.* Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad sydd i'w cynnal yn Birmingham yn bennaf yn 2022, ac at ddibenion cysylltiedig.

6. Mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer nifer o fesurau gweithredol i gefnogi'r broses o gynnal Gemau'r Gymanwlad 2022 sydd i'w cynnal yn Birmingham yn bennaf (a lleoliadau ledled Gorllewin Canolbarth Lloegr). Mae'n rhoi y pwerau angenrheidiol i Weinidogion y Deyrnas Unedig a'r Pwyllgor Trefnu i sicrhau bod agweddau ar y Gemau sy'n gysylltiedig ag ariannu y Pwyllgor Trefnu, darpariaethau ynghylch cysylltiadau â'r Gemau, towtio tocynnau, hysbysebu a masnachu a thrafnidiaeth yn cael eu cyflenwi.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

7. Rhan 3 - Troseddau Towtio, Hysbyebu a Masnachu - Towtio
Mae Cymal 9 yn creu trosedd newydd dros dro i dowtio tocynnau y Gemau o dan amgylchiadau penodol. Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn debygol o dderbyn dirwy.

8. <u>Atodlen 1 - Towtio Tocynnau:</u> <u>Darparwyr Gwasanaethau y Gymdeithas Gwybodaeth</u>
   Mae Atodlen 1 yn ategol i'r brif drosedd â thocynnau yng Nghymal 9. Mae'n cynnig eithriadau i gyflawni'r drosedd, yn destun amodau, i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu fel cyfryngwyr, sy'n casglu gwybodaeth, neu sy'n storio gwybodaeth heb wybod bod ei darparu yn drosedd o dan Gymal 9.

9. Mae angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn gan eu bod yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn gysylltiedig â hyrwyddo twristiaeth ac economi Cymru. Er bod 'diogelu'r defnyddiwr' yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pwrpas y darpariaethau hyn yw diogelu brand ac enw da canolfannau chwaraeon yng Nghymru sydd yn ei dro yn helpu i hyrwyddo twristiaeth ac economi Cymru sy'n faterion sydd wedi'u datganoli ill dau.

10. Hefyd, mae'r darpariaethau yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn gysylltiedig â swyddogaethau'r awdurdod lleol o lunio is-ddeddfau. Gallai atal unrhyw rwystro neu broblemau gyda towtio tocynnau fod yn rhywbeth sy'n syrthio o fewn y pŵer rheolaeth dda a llywodraeth yn adran 235 Deddf Llywodraeth Cymru 1972. Gan y gallai'r Cynulliad ddeddfu ar y materion hyn, yna gallai o bosibl ddeddfu ynghylch pwerau awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau ble y mae towtio yn creu problemau o fewn y maes hwn.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru ym Mil Gemau'r Gymanwlad Birmingham**

11. Barn Llywodraeth Cymru yw ei fod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn o fewn y Bil hwn gan y DU. Mae'r Bil yn creu trosedd dros dro yn gysylltiedig â towtio tocynnau Gemau. Mae felly'n briodol i ddelio â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan mai dyma'r dull mwyaf ymarferol a chymesur o ddeddfu fel bod modd i'r darpariaethau fod yn berthnasol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymarferol am resymau amser a chydlyniaeth. Bydd cyflwyno'r drosedd o dowtio tocynnau yn y Bil hwn gan y DU yn galluogi iddo gael ei weithredu ledled Cymru ar yr un pryd â Lloegr.

**Goblygiadau ariannol**

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r Bil hwn.

13. Rhan 3 y Bil, Troseddau Towtio, Hysbysebu a Masnachu - Mae towtio yn creu trosedd newydd i dowtio tocyn i'r Gemau mewn amgylchiadau penodol. Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn debygol o dderbyn dirwy. Roedd Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder a gynhaliwyd

gan Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn dangos, yn seiliedig ar nifer yr erlyniadau am droseddau tocynnau yn Gemau'r Gymanwlad Llundain 2012 a Glasgow 2014 y byddai llai na phump o achosion o dan y drosedd bob blwyddyn o'r cyfnod pan fydd y tocynnau'n cael eu gwerthu i 2022 ledled y DU. Y goblygiadau i Gymru felly yw'r posibilrwydd o un achos erlyn ar y mwyaf. Mae Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cytuno i dalu unrhyw gostau at y cwsmer i'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr sy'n codi o erlyniadau o dan y drosedd hon.

**Casgliad**

14. Barn Llywodraeth Cymru yw ei fod yn briodol delio â'r darpariaethau yn y Bil hwn gan y DU gan mai dyma'r dull cyfreithiol mwyaf ymarferol a chymesur o alluogi'r darpariaethau i fod yn berthnasol yng Nghymru.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC**
**Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Mehefin 2019**